| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **3 Tachwedd 2025** |
| **Teitl :** | **Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch** |
| **Awdur :** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth ac i gyflwyno unrhyw sylwadau ar y trefniadau** |

**Cefndir**

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor fel rhan o'i waith o fonitro safonau o fewn y Cyngor ac yn unol â'i raglen waith.

2. Mae'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro o unrhwy gynnig o letygarwch, buddiant materol neu fantais sy'n werth mwy na swm a bennir gan yr awdurdod. Penderfyniad Cyngor Gwynedd mai £25 ddylai'r swm hynny fod, a darparu ymhellach y dylid ei gofrestru pe derbynir y cynnig hwnnw ai peidio.

3. Mae ffurflen bwrpasol ar gael i gofrestru cynigion o'r fath ac mae copi wedi ei hatodi fel **Atodiad 1**.

**Y Protocol**

4. Mabwysiadodd y Cyngor Brotocol ar Roddion a Lletygarwch Aelodau yn 2004. Yn sgil cyhoeddi Cod Ymddygiad newydd a Chanllawiau gan yr Ombwdsmon adolygwyd y Protocol gan y Pwyllgor Safonau, gan gyflwyno ei argymhellion ar gyfer diwygio'r Protocol i'r Cyngor Llawn. Mabwysiadwyd y Protocol cyfredol gan y Cyngor ar 2 Mai 2013.

5. Atodir copi o'r Protocol fel **Atodiad 2**.

**Y Gofrestr**

6. Mae'r pwyllgor hwn yn y gorffennol wedi trafod priodoldeb cyhoeddi'r gofrestr ar y wefan y Cyngor. Penderfynywd bryd hynny na ddylid gwneud am y tro. Tra ei bod yn orfodol rhoi'r Gofrestr Fuddiannau Aelodau ar y wê ond nid yw'r un orfodaeth yn ymestyn i'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

**Dadansoddiad**

7.1 Dadansoddwyd y datganiadau ar y gofrestr gyfredol a cheir y canlyniadau isod:

| Dyddiad ffurflen | Rhodd/lletygarwch | Derbyniwyd / gwrthodwyd | Gwerth |
|---|---|---|---|
| 10-01-23 | Blodau a photel o prosecco gan etholwr ar ôl helpu gyda chais cynllunio. | Dim gwybodaeth | Dros £25 |
| 04-09-23 | Talebau rhodd fel diolch am roi cymorth gyda chais cynllunio. | Gwrthodwyd – rhoddwyd yn ôl i'r teulu | Dim gwybodaeth |
| 25-03-24 | Potel o wisgi drwy'r post heb nodyn eglurhad neu gyfeiriad. Credai'r aelod mai etholwr oedd wedi ei anfon fel diolch am gymorth gyda chais cynllunio. Roedd esioes wedi egluro wrtho na allai dderbyn rhodd. | Rhoddwyd i'r neuadd bentref leol fel gwobr raffl | £25- £27 |
| 23-08-24 | Hamper fel diolch am gynorthwyo gyda chais cynllunio | Gwrthodwyd – rhoddwyd yn ôl i'r etholwr | Dim gwybodaeth |
| 20-02-25 | Tocyn i Gêm Ryngwladol Pel droed Menywod Cymru | Gwrthodwyd | Dim gwybodaeth |
| 27 –02 –25 | Tocyn i Gêm Ryngwladol Pel droed Menywod Cymru | Derbyniwyd | Dim gwybodaeth |
| 27-02-25 | Tocyn i Gêm Ryngwladol Pel droed Menywod Cymru | Derbyniwyd | Dim gwybodaeth |

7.2 Mae tri cofrestriad newydd ers adroddiad llynedd yn ymwneud â'r un digwyddiad. Gwrthododd un aelod yn sgil y ffaith bod cynlluniau ar waith gan y trefnwyr yn ei ward a'i bod yn debygol y byddai cais cynllunio yn cael ei gyflwyno. Roedd yr aelodau a dderbyniodd y gwahoddiad wedi eu gwhaodd yn rhinwedd eu rolau fel aelodau Cabinet.

**Argymhelliad**

**8. Gofynnir i'r Pwyllgor:**

(a) nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad

(b) gynnig unrhyw sylwadau ar unrhwy fater a godir yn yr adroddiad